Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Mesen Fach, Bryn Y Neuadd

27 Mai 2021

Dyddiad cyhoeddi: 2 Gorffennaf 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80195-634-5

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o ward Mesen Fach yn Ysbyty Bryn y Neuadd fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r ward yn un o dair ward annibynnol yn Ysbyty Bryn y Neuadd. Mae'n cynnal asesiadau ac yn darparu triniaethau a gwasanaethau cymorth therapiwtig ar gyfer hyd at naw claf sydd ag anableddau dysgu.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Ward ar 26 Mai 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed o ganlyniad i COVID-19 i'r canlynol:
    - Yr amgylchedd ffisegol
    - Arferion, trefniadau ar gyfer ymweliadau a chadw mewn cysylltiad ag anwyliaid
    - Rheoli ymddygiad
    - Mynediad y cleifion i absenoldeb yn y gymuned, gweithgareddau a rhwydweithiau cymdeithasol (gan gynnwys absenoldeb ffurfiol lle mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn gymwys)?

- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel?

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol ehangach pan fydd angen?

O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a deddfwriaeth DoLS, a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu

diogelu?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Yr asesiadau risg/archwiliadau amgylcheddol diweddaraf
- Data ar leisiau'r cleifion
- Pasbort Ysbyty / proffiliau
- Manylion digwyddiadau; yn benodol achosion o ymddygiad heriol, atal yn gorfforol ac arwahanu

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Mae gan y ward ystafelloedd gwely sengl en-suite a dwy lolfa i gleifion, a dywedwyd wrthym eu bod yn cefnogi'r broses o hunanynysu a chadw pellter cymdeithasol yn effeithiol. Ychwanegodd y staff y gall y cleifion hefyd fanteisio ar ddefnyddio ardaloedd eang yn yr awyr agored sydd wedi'u cyflwyno'n dda.

Dywedwyd wrthym fod cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac ymweliadau â'r uned wedi'u cyfyngu er mwyn atal COVID-19 rhag cael ei drosglwyddo. Dywedodd y staff wrthym fod hyn wedi arwain at ostyngiad mewn cymhelliant a chynnydd bach mewn ymddygiadau heriol. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff wedi parhau i ddarparu gwasanaeth therapiwtig dan arweiniad nyrsys mewn ymdrech i gynnig gweithgareddau y byddant fel arfer yn cymryd rhan ynddynt yn y gymuned. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio'r ardal awyr agored yn aml, defnyddio cerbyd ar ôl cynnal asesiad risg arno a gwneud pizzas i efelychu'r profiad tecawê.

Dywedodd y staff wrthym fod arferion y ward, megis amser prydau bwyd, wedi aros yn gyson drwy gydol y pandemig. Ychwanegodd y staff fod gan bob claf ei arferion ei hunan, a bod gan bob claf gynllun unigol yn seiliedig ar y gweithgareddau y mae'n well ganddo gymryd rhan ynddynt. Ychwanegodd y staff y caiff y cynllun hwn ei greu gyda chyfranogiad

y teuluoedd lle y bo'n bosibl, ac y caiff ymddygiad ei fonitro i asesu'r ffordd y mae'r cleifion yn ymateb i weithgareddau penodol.

Gwelsom fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol wedi parhau drwy gydol y pandemig ar ffurf rithwir. Dywedodd y staff fod hyn wedi gweithio'n dda ac y cafwyd gwybodaeth gadarnhaol gan bob arbenigaeth. Cadarnhaodd y staff y byddai rhagor o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal pe bai angen, a bod timau arbenigol yn cael eu hannog i fynychu rowndiau ward wythnosol i gefnogi anghenion cleifion.

Dywedwyd wrthym fod y grŵp adborth cleifion wedi'u hatal yn ystod y pandemig am resymau rheoli heintiau. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol nodi bod y ward wedi defnyddio dull arall i glywed llais y claf. Gwelsom enghraifft o holiadur byr y mae pob claf yn ei gwblhau'n wythnosol. Mae hyn yn gofyn i'r claf ysgrifennu beth sy'n ei wneud yn hapus, yn drist a pha bethau y mae am eu dweud wrth ei feddyg. Cadarnhaodd y staff fod hyn yn bwydo i mewn i gyfarfod tîm amlddisgyblaethol pob claf, sy'n helpu i ddarparu gofal unigol.

Gwnaethom gadarnhau bod pob claf wedi cael gwiriad iechyd corfforol wrth gael ei dderbyn i'r ward. Mae hyn yn sicrhau bod anghenion iechyd a llesiant cyffredinol y cleifion yn cael eu diwallu. Dywedodd y staff wrthym mai practis meddyg teulu lleol sy'n darparu'r gwasanaeth hwn a bod cyfraniad y practis wedi bod yn fuddiol iawn. Roedd yn gadarnhaol nodi bod gan y meddyg teulu rôl weithredol, ac roedd yn mynd i'r ward bob wythnos ac yn mynychu cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn ôl y gofyn.

Gwnaethom gadarnhau bod gan bob claf basbort ysbyty[1]. Gwelsom enghraifft o hyn a chael ei fod yn gynhwysfawr ac yn unigol i'r claf. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu disgrifio'n llawn pe bai angen eu derbyn i ward arall.

Mae'r uned yn asesu ac yn trin oedolion a dderbynnir ag anghenion acíwt ac, fel y cyfryw, gall y cleifion ymddwyn mewn ffyrdd heriol ar adegau. Dywedodd y staff wrthym fod model i gefnogi ymddygiad cadarnhaol yn cael ei ddilyn a gwnaethant gadarnhau bod y dulliau a ddefnyddir i reoli'r ymddygiadau hyn yn rhan o gynllun gofal unigol neu gynllun cefnogi ymddygiad cadarnhaol pob claf.

Gwnaethom edrych ar ddata ar atal a gwelsom mai anaml y defnyddiwyd dulliau atal. Pan ddefnyddiwyd dulliau atal, gwelsom fod hyn wedi cael ei wneud am y cyfnodau lleiaf posibl. Gwnaethom fwrw golwg dros un digwyddiad gyda rheolwr y ward a oedd yn gyfarwydd â'r digwyddiad, a darparodd fanylion y sesiwn ôl-drafod a'r gwersi a ddysgwyd. Gwnaethom gadarnhau fod y perthnasau a'r tîm amlddisgyblaethol wedi bod yn rhan o'r broses gyfan.

Cadarnhaodd y staff fod asesiad risg pwyntiau clymu wedi cael ei gynnal yn ddiweddar a dywedon nhw wrthym fod hwn yn cael ei adolygu ddwywaith bob blwyddyn. Ychwanegodd y staff fod asesiadau risg unigol yn cael eu cwblhau ar gyfer y cleifion yr ystyrir eu bod mewn perygl o hunan-niweidio.

1

Gwelsom fod asesiad risg iechyd a diogelwch ac archwiliad hunanasesu wedi'u cwblhau mewn ymateb i'r pandemig. Adolygwyd yr asesiad risg yn ddiweddar ac roedd yn cynnwys camau gweithredu diwygiedig. Fodd bynnag, gwelsom y bu cryn amser rhwng rhoi gwybod am rai materion cynnal a chadw hanesyddol a'u cwblhau. Er bod y materion cynnal a chadw wedi'u cwblhau ers hynny, cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu a monitro amserlenni ar wardiau eraill er mwyn sicrhau nad oes oedi tebyg yn digwydd ar y safle hwn.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Polisïau rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau penodol i Covid-19
- Data presennol ar gyfraddau heintiau
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys mynychu cyfarfod diogelwch dyddiol a thrwy fwletin staff.

Cadarnhaodd rheolwr y ward y darparwyd hyfforddiant ar sut i wisgo a diosg PPE yn gywir i'r staff, a bod hyrwyddwyr gwisgo a diosg ar y ward a'u rôl yw annog arferion da. Roedd yn gadarnhaol nodi bod hyfforddiant a chymorth ychwanegol wedi'u darparu gan y tîm atal a rheoli heintiau, a dywedwyd wrthym ei fod wedi hybu ymwybyddiaeth dda o weithdrefnau atal a rheoli heintiau ymhlith y staff.

Dywedwyd wrthym fod rhai o'r cleifion wedi cael trafferth wrth ddefnyddio PPE. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol nodi bod masgiau wyneb clir yn cael eu treialu ar y ward. Y gobaith yw y bydd y treial hwn yn helpu i hyrwyddo dulliau cyfathrebu clir rhwng y staff a'r cleifion.

Cadarnhaodd y staff fod ymweliadau â'r ward wedi cael eu rheoli'n ofalus. Dywedwyd wrthym fod pob ymweliad gan unigolyn proffesiynol wedi'i gynllunio ymlaen llaw a bod disgwyl i'r staff wisgo gwisg a PPE priodol. O ran perthnasau a oedd yn ymweld â'r ward, dywedwyd wrthym fod rhestr wirio yn cael ei defnyddio i asesu risg pob ymweliad a bod lleoedd dynodedig yn cael eu defnyddio i gadw pellter cymdeithasol.

Gwelsom fod ystyriaethau atal a rheoli heintiau wedi'u hasesu fel rhan o'r asesiad risg iechyd a diogelwch a'r archwiliad hunanasesu. Ategwyd hyn gan archwiliad diweddar a gafodd sgôr gadarnhaol gan dîm atal a rheoli heintiau y bwrdd iechyd. Dywedodd y staff wrthym fod y tîm atal a rheoli heintiau wedi cyfrannu'n rheolaidd drwy gydol y pandemig.

Dywedwyd wrthym fod un claf a oedd wedi cael canlyniad positif i brawf COVID-19 wedi cael gofal ar y ward. Cadarnhaodd y staff fod y claf hwn wedi ynysu'n llwyddiannus mewn ystafell en-suite ddynodedig ar y ward a bod tîm o staff ar wahân wedi cael ei ddyrannu i ddarparu gofal. Dywedodd y staff wrthym y cynhaliwyd adolygiad gan y tîm atal a rheoli heintiau, a gwnaethom gadarnhau bod perthnasau yn rhan o ofal a thriniaeth y claf hwn.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff yn cael profion COVID-19 rheolaidd a bod pob aelod o'r staff wedi eu brechu. Gwnaethom gadarnhau bod y cleifion a oedd wedi bod ar y ward am gyfnod hefyd wedi cael eu brechiad. Dywedodd y staff fod y cleifion yn cael cymorth i ddeall COVID-19 a bod angen cael y brechlyn, a oedd yn cynnwys defnyddio straeon a llyfrau lluniau.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd proffesiynol ehangach pan fydd angen.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Polisïau uwchgyfeirio
- Yr archwiliad/adolygiad diweddaraf o'r gwaith papur cadw ar gyfer cleifion sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ynghyd â chynllun gweithredu ar gyfer sut yr eir i'r afael ag unrhyw feysydd a nodir
- Polisïau/prosesau corfforaethol i sicrhau bod y gwasanaeth yn barod ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Asesiadau risg a wnaed mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch y staff
- Nifer yr atgyfeiriadau diogelu

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dangosodd rheolwr y ward wybodaeth glir am y ward, ei chleifion ac roedd yn canmol y ffordd roedd y staff wedi ymateb i ddiwallu anghenion y cleifion yn ystod y pandemig.

Gwelsom fod lefelau staffio y cytunwyd arnynt ar waith yn y ward a bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai angen uwchgyfeirio unrhyw bryderon am staffio. Nododd rheolwr y ward fod y tîm rheoli yn ymgysylltu'n dda wrth adolygu anghenion staffio.

Cawsom gopi o'r ystadegau hyfforddiant gorfodol a gwelsom fod y lefel o gydymffurfiaeth yn dda ar y cyfan. Soniodd rheolwr y ward am y cynlluniau a oedd ar waith i chwilio am hyfforddiant ychwanegol i ddiwallu anghenion y staff anableddau dysgu. Roedd yn gadarnhaol cael gwybod bod disgyblaethau, megis therapi lleferydd ac iaith a seicoleg, yn gweithio'n agos gyda'r gyfarwyddiaeth i ddiwallu'r angen hwn.

Gwnaethom gadarnhau fod gwrandawiadau tribiwnlys wedi'u trefnu ar gyfer pump claf a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a bod gwasanaethau eirioli ar gael i'r cleifion hyn os bydd angen. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu.

**Nodwyd y maes canlynol i'w wella:**

Nod gwasanaeth asesu a thrin yw darparu triniaeth yn y byrdymor i gleifion sydd ag anabledd dysgu. Gwelsom fod pedwar claf wedi'u rhyddhau yn ystod y tri mis diwethaf ac roedd yn gadarnhaol clywed bod y staff yn rhoi pwyslais ar sicrhau llwyddiant parhaol yr unigolion hyn. Gwelsom enghreifftiau lle symudwyd staff y ward gyda thimau staff newydd dros dro er mwyn helpu i integreiddio'r claf i'w amgylchedd newydd. Clywsom hefyd enghreifftiau cadarnhaol o weithio'n agos gyda thimau anghenion cymunedol a chymhleth i gefnogi'r claf ymhellach.

Fodd bynnag, gwelsom fod un claf wedi cael ei dderbyn i'r ward am gyfnod sylweddol o amser, a gwelsom fod claf arall wedi cael ei dderbyn ym mis Medi 2020. Esboniodd y staff y bu ymdrechion blaenorol i ryddhau'r claf cyntaf i leoliad addas, a bod oedi parhaus oherwydd diffyg darpariaeth therapiwtig a chymdeithasol addas yn yr ardal.

Er y cawsom ein sicrhau bod gofal diogel yn cael ei ddarparu, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ychwanegol i AGIC am gynllunio i ryddhau cleifion sydd wedi cael eu derbyn am gyfnodau hwy na'r hyn a fwriedir mewn uned asesu a thrin.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Bryn y Neuadd

Ward: Mesen Fach

Dyddiad y gweithgarwch: 27 Mai 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ychwanegol i AGIC mewn perthynas â rhyddhau cleifion sydd wedi cael eu derbyn am gyfnodau hwy na'r hyn a fwriedir mewn uned asesu a thrin. | Safonau Iechyd a Gofal, 5.1 | <u>**Llwybr Gweithredol Byw a Ffynnu.**</u><br><br>Wrth dderbyn cleifion, bydd y tîm cleifion mewnol yn gweithio'n agos gyda'r timau anableddau dysgu cymunedol allanol i nodi lleoliadau addas sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd cynllunio'n gynnar ar gyfer rhyddhau cleifion yn rhan o'r llwybr Byw a Ffynnu.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol bob pythefnos, gan gynnwys y cydlynydd gofal, | Pennaeth Gweithrediadau<br><br>Pennaeth Nyrsio<br><br>Rheolwr Gweithrediadau Cymunedol<br><br>Rheolwr y Ward | Mis |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gwasanaethau eirioli a'r tîm amlddisgyblaethol allanol a pherthnasau, er mwyn sicrhau bod y gwaith cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn broses barhaus sy'n cyd-fynd â'r llwybr Byw a ffynnu.<br><br>Mae grwpiau comisiynu clinigol misol wedi'u sefydlu. Mae'r aelodau'n cynnwys Pennaeth Nyrsio, Rheolwyr Gweithredol Clinigol ac arweinydd Gweithredol ar gyfer CIC. Caiff pob achos cymhleth ei drafod yn y fforwm hwn, ac mae'n cynnig llwyfan i uwchgyfeirio a lliniaru unrhyw rwystrau posibl ar gyfer rhyddhau cleifion. Caiff partneriaid yr ALl ddefnyddio'r fforwm hwn i hyrwyddo gwaith cynllunio cydweithredol ar gyfer rhyddhau cleifion. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: William Haydn Williams – Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau
Dyddiad: 23.06.2021